YSGOL ABERCONWY



YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

# Cylchlythyr Nadolig 2022 - Croeso

Wrth i ni gyrraedd diwedd tymor prysur (a hir!) arall, roeddwn yn awyddus i gyflwyno cylchlythyr y tymor hwn trwy fynegi fy niolch i bob aelod o gymuned ein hysgol am yr ymrwymiad, brwdfrydedd a chefnogaeth a ddangoswyd gennych ers i ni ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Llongyfarchiadau i'n myfyrwyr ar dymor llwyddiannus, a da iawn chi am gymryd rhan mewn cymaint o weithgareddau a digwyddiadau (a bloedd arbennig i flwyddyn 7 sydd wedi ymgartrefu mor dda!) Diolch i'w holl rieni a gofalwyr am eich holl gefnogaeth i'r ysgol ac addysg eich plant, i'n Llywodraethwyr am eich holl gefnogaeth a'ch ymwneud â'r ysgol a'i gweithdrefnau, ac i'n staff am eich ymrwymiad diflino i'ch rolau addysgu, asesu a chymorth bugeiliol, na fu erioed yn bwysicach.

Rydym wrth ein bodd ein bod wedi llwyddo i ddarparu cymaint o gyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu diddordebau a'u sgiliau, ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Mae llawer o'r pethau hyn i'w gweld yn y cylchlythyr hwn a gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen amdanynt wrth i chi ymlacio dros wyliau'r Nadolig.

P'un a ydych yn dathlu llwyddiant academaidd, yn hel atgofion dros daith yr ysgol i Wlad yr Iâ, yn edrych ymlaen at sgïo gyda ni yn y Gwanwyn, yn ail-fyw cynhyrchiad rhagorol eleni o 'Legally Blonde', neu'n mwynhau'r 'Cwricwlwm i Gymru' newydd ym Mlwyddyn 7, rydym yn gobeithio eich bod chi wedi dod o hyd i rywbeth i ysgogi ac ennyn brwdfrydedd yn ystod y tymor hwn.

Bu cymaint o lwyddiannau trawiadol, mae'n anodd eu rhestru i gyd yn y cylchlythyr hwn, ond rwy'n eich llongyfarch i gyd am eich rhan mewn tymor mor llwyddiannus ac yn gobeithio y cewch wyliau da dros y Nadolig, gan fwynhau seibiant haeddiannol!

Nadolig Llawen!

Mr Gerrard
Pennaeth

ON. Edrychwn ymlaen at groesawu disgyblion yn ôl i'r ysgol ar Ddydd Mawrth 10 Ionawr 2023!
Mae rhagor o ddyddiadau pwysig i'ch dyddiadur i'w gweld ar dudalen olaf y cylchlythyr hwn.

# Y Ganolfan

Mae Ysgol Aberconwy wedi cael ei hadnewyddu a'i datblygu'n ddiweddar ar yr adeilad o flaen yr ysgol. Mae hwn bellach yn gartref i 'Y Ganolfan' ac yn amgylchedd modern sy'n cynnwys darpariaeth y Sir ar gyfer myfyrwyr ag ASD ac anawsterau niwroddatblygiadol yn ogystal â meysydd eraill.

Mae'r amgylchedd tawel a chyfforddus wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion plant ag anawsterau cymdeithasol, cyfathrebu, emosiynol neu ymddygiadol cymhleth, gan alluogi myfyrwyr i deimlo'n ddiogel a'u helpu i gyflawni eu llawn botensial tra yn Ysgol Aberconwy.

Ar hyn o bryd mae gan y Ganolfan bedair prif ardal yn ogystal â chyfres o ofodau synhwyraidd. Mae wedi cael ei ehangu i gynnwys 6 ystafell ddosbarth yn ogystal â 5 pod synhwyraidd/datgywasgu sydd wedi'u dodrefnu â goleuadau synhwyraidd ac offer sy'n cynnwys cadeiriau sydd wedi'u pwysoli i helpu myfyrwyr i reoleiddio a'u galluogi i ddychwelyd yn llwyddiannus i wersi.

Mae gennym POD acwstig y gall plant ei ddefnyddio ar gyfer sesiynau mentora gyda'n staff profiadol a gofalgar. Gall myfyrwyr hefyd ei ddefnyddio fel man tawel i weithio tra'n aros yn yr ystafell ddosbarth. Yn ogystal â hyn, mae gennym gyfres o ystafelloedd ymyrraeth sy'n darparu'n benodol ar gyfer datblygu sgiliau allweddol megis llythrennedd a rhifedd, llythrennedd emosiynol ac anawsterau cyfathrebu cymdeithasol.

Mae'r Ganolfan bellach yn cynnig amgylchedd anogol sy'n cefnogi ein myfyrwyr mewn ffordd gyfannol ac yn cynnig amrywiaeth o ymyriadau i ddiwallu anghenion myfyrwyr a chefnogi eu hanawsterau. Rydym yn cynnig pecynnau pwrpasol, lle bo angen, gan weithio'n agos gyda staff ysgol, i gefnogi myfyrwyr fel eu bod yn gallu cael mynediad ac ymgolli mewn addysg brif ffrwd yn llwyddiannus. Ein nod yw sicrhau bod pob myfyriwr yn Ysgol Aberconwy yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cyflawni neu'n rhagori ar eu llawn botensial.

Dywedodd Medwen Brookes, Pennaeth Cynorthwyol, "Mae ehangu'r ddarpariaeth hon wedi ein galluogi i gefnogi nifer fwy o fyfyrwyr mewn amgylchedd cynhwysol a chefnogol. Rydym eisoes wedi gweld gwahaniaeth amlwg mewn ymgysylltu o fewn y ddarpariaeth newydd a dim ond ychydig wythnosau sydd wedi bod! Rwy'n gyffrous iawn i weld sut bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gynnydd a datblygiad y ddarpariaeth dros y misoedd nesaf."






YSGOL ABERCONWY

Rhagfyr 2022

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

# Pencampwyr Byd Dawns!



Mae pedwar o fyfyrwyr Ysgol Aberconwy wedi dod yn bencampwyr byd ym Mhencampwriaethau Dawnsio Stryd y Byd y Sefydliad Dawns Unedig (UDO)...

Llongyfarchiadau i Keiyarna (Blwyddyn 10), Evie ac Aleah (Blwyddyn 11) a Coral, sydd bellach wedi'n gadael ar ôl cwblhau ei harholiadau TGAU, a gystadlodd yn nhim 'Autonomy' i ennill yr adran Nofis dan 18 oed!

Daeth miloedd o ddawnswyr o bob rhan o'r byd at ei gilydd yn y pencampwriaethau hyn i gystadlu am nifer o deitlau Pencampwyr y Byd yn y Winter Gardens yn Blackpool, o flaen beirniaid a oedd yn cynnwys dawnswyr Hip Hop a Dawnsio Stryd gorau'r byd.

Bu'n rhaid i'r tîm o unarddeg dawnsiwr, pob un ohonynt rhwng 13 – 17 oed o ysgolion uwchradd lleol ac yn aelodau o dîm dawnsio stryd a leolir yn Ysgol Celfyddydau Perfformio Cam Un, ddod trwy rhagbrofion rhanbarthol yn Stoke yn ôl ym mis Mai, er mwyn gallu cystadlu .

Efallai mai dim ond dwy funud a hanner o hyd oedd y ddawns, ond fe gymerodd oriau ac oriau o amser stiwdio yn ystod y deuddeg mis diwethaf i'w pherffeithio. Camp wych a haeddiannol i'r tîm a lynodd gyda'i gilydd drwy COVID gan ymarfer, yn aml, trwy gyswllt fideo pan na allent ddod at ei gilydd i ymarfer.

Nid yn unig y daethant yn gyntaf yn y rhagbrofion rhanbarthol ym mis Mai, ond daethant hefyd yn gyntaf yn rownd gyntaf y gystadleuaeth yn Blackpool, gan eu galluogi i symud ymlaen yn syth i'r rownd derfynol. Yna, yn erbyn saith tîm rhyngwladol arall, enillasant y marciau uchaf, gan hawlio buddugoliaeth a'r teitl pencampwyr y byd!

I wylio eu perfformiad gwych, gwyliwch y fideo YouTube isod.

# Taith i Wlad yr Iâ





Dros yr hanner tymor, cynhaliodd yr adran Ddaearyddiaeth daith anhygoel i Wlad yr Iâ gyda 30 o fyfyrwyr gwych.

Arweiniwyd y grŵp gan Mr Moran gyda chefnogaeth Mr O'Rourke, Miss Grimward a Mrs Ohlsson, a threuliodd y grŵp bedwar diwrnod yn archwilio rhewlifoedd, nofio yn y morlyn cudd, cerdded i (a thrwy!) rhaeadrau, gweld ffrwydradau o ffynhonnau poeth geothermol, a chasglu creigiau lafa ar safle llosgfynydd a ffrwydrodd yn ddiweddar. Roeddent hyd yn oed yn ddigon ffodus i weld un o'r golygfeydd mwyaf trawiadol yn y byd: yr Aurora Borealis, neu'r Northern Lights.

Roedd yn daith hynod llwyddiannus a chofiadwy, ac yn brofiad dysgu hynod gyffrous i bawb.







YSGOL ABERCONWY

**Rhagfyr 2022**

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

## Llwyddiant TGAU, BTEC a Safon Uwch!





Cafodd myfyrwyr Blwyddyn 11 a 13 Ysgol Aberconwy ganlyniadau TGAU, BTEC a Safon Uwch rhagorol mewn ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol.

Rydym yn falch iawn o'n holl fyfyrwyr ac yn falch iawn hefyd o weld cymaint o'n myfyrwyr Blwyddyn 13 yn cadarnhau eu lle yn eu prifysgolion dewisol i astudio amrywiaeth eang o gyrsiau cyffrous. Rydym hefyd wrth ein bodd bod y nifer uchaf erioed o grŵp blwyddyn 11 wedi dewis dychwelyd i'n chweched dosbarth i astudio cyrsiau Safon Uwch a Galwedigaethol

## Ffair Fêl



Ddydd Mawrth 13eg Medi, bu rhai o fyfyrwyr Blwyddyn 7 yn ymweld â'r Ffair Fêl yng Nghonwy lle buont yn astudio hanes a phwysigrwydd y ffair Siarter Frenhinol 700 oed fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Yn ystod yr ymweliad fe wnaethant hefyd gwblhau arolwg, archwilio'r farchnad ac wrth gwrs, prynu mêl lleol hyfryd.

Wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol, yn ystod eu gwers Gymraeg, defnyddiwyd y 'modd gorchmynnol' i ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i wneud brechdan fêl flasus yn y Gymraeg, ac yna bu'n rhaid iddynt ddilyn y cyfarwyddiadau hynny. Cawsant lawer o hwyl, yn enwedig pan oedd rhai wedi anghofio cynnwys cyfarwyddiadau fel 'ewch i nôl plat' ayyb!





## Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd



Ddydd Llun 26ain Medi fe wnaethom ymuno ag ysgolion ar draws Ewrop i ddathlu Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd. Ceisiodd pob adran gynnwys elfennau o ieithoedd Ewropeaidd yn eu gwersi. Cawsom 'Kinball' mewn Addysg Gorfforol, datrys problemau mewn Mathemateg gan ddefnyddio rhifau o wahanol ieithoedd, cwis baneri Ewrop a phrifddinasoedd mewn Daearyddiaeth, i enwi dim ond rhai.

Mwynhaodd myfyrwyr a staff fwydlen thema Ewropeaidd yn y ffreutur a oedd yn cynnwys seigiau blasus fel Lasagne, Empenada Sbaenaidd, Paella Llysiau, Croissant, Pain au Chocolat, tafelli Pizza, Croissant gyda ham a chaws, Baguettes gyda llenwadau amrywiol a Gelato.

Roedd hefyd helfa drysor i ddarganfod ffeithiau amser egwyl a chinio, cystadleuaeth Bake Off a chyfle i wneud ychydig o beintio cerrig mân gyda thema Ewropeaidd i fyfyrwyr ar ôl ysgol.

Bu Mrs Sewell yn garedig iawn yn cynnig gwasanaeth beirniadu ar gyfer gystadleuaeth Bake Off, ac er bod y gystadleuaeth yn un anodd, llwyddodd i ddod o hyd i'r goreuon. Llongyfarchiadau i Aleena ym mlwyddyn 9 a ddaeth yn gyntaf, Pryce ym mlwyddyn 11 a ddaeth yn ail ac i Amy ac Alyssia ym mlwyddyn 7 a ddaeth yn drydydd.

Bydd unrhyw gacennau na chawsant eu casglu yn cael eu rhoi i stondin goffi Macmillan i helpu i godi arian i Macmillan yn ystod ein Noson Agored.

Dywedodd Jamie McAllister, Pennaeth Ieithoedd Rhyngwladol, “Roedd mor braf bod yn un o gannoedd o ysgolion ar draws y cyfandir sy’n dathlu amrywiaeth ieithoedd heddiw. Roedd yr ysgol yn falch iawn o ymdrechion y staff a’r myfyrwyr!”

## Llundain Gyfreithiol

Manteisiodd Ethan, myfyriwr Blwyddyn 13, ar gyfle gwych i fynychu Cynllun Haf yn Llundain a drefnwyd gan Ymddiriedolaeth Addysg Gyfreithiol yr Arglwydd Edmund Davies i gael profiad uniongyrchol o sut beth y gallai gyrfa yn y Gyfraith fod.

Mewn un wythnos yn unig, nid yn unig y bu Ethan yn cysgodi cyfreithwyr, bargyfreithwyr a barnwyr, ond hefyd mynychodd y treial troseddol cyntaf erioed i gael ei ddarlledu yn yr Old Bailey ac enillodd ddadl ar bleidlais i bobl ifanc 16 oed dan lywyddiaeth Barnwr Uchel Lys.

Roedd Ethan yn ddiolchgar am y profiad, ac meddai, “Roedd yn anhygoel i weld yn agos y system gyfreithiol yn gweithio; mae hyn wedi fy helpu i benderfynu dilyn gyrfa yn y Gyfraith yn y dyfodol”.




## Human Nurture

Mynychodd disgyblion Blwyddyn 9 Ysgol Aberconwy berfformiad o Human Nurture yn Stiwdio Ddrama’r ysgol. Perfformiwyd y ddrama ergydiol hon gan actorion o’r Theatre Centre yn Llundain. Mae'n archwilio'r chwalfa yng nghyfeillgarwch dau ddyn ifanc ac yn ymdrin yn ddigyfaddawd â hiliaeth a hunaniaeth.



## Plant mewn Angen

Cafwyd ymdrech wych gan staff a myfyrwyr i godi arian ar gyfer Plant mewn Angen eleni. Cawsom gystadleuaeth pobi, stondinau a gemau, golchi ceir, rafflau a digwyddiadau noddedig a gynhaliwyd trwy'r dydd.

Eleni rydym wedi codi dros £3100 i Blant mewn Angen!

Diolch enfawr i'n holl staff a myfyrwyr am eu hymdrechion gwych, yn enwedig ein 50 codwr arian gorau a fwynhaodd daith wobrwyo i Cheshire Oaks yn ddiweddar. Diolch hefyd i gymuned ehangach yr ysgol am eich cefnogaeth barhaus.










## Arddangosfa Celfyddydau Mynegiannol Blwyddyn 7



Cynhaliodd pedwar dosbarth o fyfyrwyr Blwyddyn 7 eu Harddangosfa Celfyddydau Mynegiannol gyntaf erioed ar ddydd Iau 10fed Tachwedd. Gan mai dim ond ym mis Medi y dechreuodd y Cwricwlwm Newydd i Gymru, roedd y myfyrwyr yn awyddus iawn i arddangos eu gwaith a rhannu'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau.






## Arbenigo mewn Mandarin

Llongyfarchiadau i Olivia ym mlwyddyn 8 a Nell ym mlwyddyn 10, sydd ill dau wedi ennill cymwysterau QCF CBAC mewn Mandarin.

Dechreuodd Olivia fynychu gwersi Mandarin wythnosol pan oedd hi ym mlwyddyn 7, ac ym mis Ebrill 2022, penderfynodd ei hathro Jie Chen ei bod yn barod i sefyll ei harholiad cyntaf. Llwyddodd Olivia i sicrhau marc Pasio Mynediad 3 mewn Mandarin Llafar.



Mae Nell wedi bod yn astudio Mandarin ers ychydig dros 2 flynedd gyda chyfran fawr o'i hastudiaethau wedi'u cwblhau ar-lein yn ystod pandemig Covid. Safodd Nell ei harholiad ym mis Ebrill a llwyddodd i ennill ddyfarniad Lefel 1 mewn Mandarin Llafar.



Dywedodd yr athrawes ieithoedd, Nia Williams, “Rydym yn falch iawn o’u hymrwymiad a’u cyflawniadau, yn enwedig o ystyried bod y ddwy ferch wedi bod yn mynychu gwersi ar ôl ysgol. Gobeithiwn y byddant yn parhau i fwynhau eu hastudiaethau mewn Mandarin a dymunwn bob lwc iddynt gyda'u harholiadau yn y dyfodol.”

## Er Cof



Roedd disgyblion chweched dosbarth Ysgol Aberconwy, Sebastian a Lewis, yn falch o gynrychioli’r ysgol gyda’r Pennaeth Ian Gerrard wrth osod torch yng ngwasanaeth Coffa Conwy ym Modlondeb ar ddydd Sul, 13eg Tachwedd.

YSGOL ABERCONWY

**Rhagfyr 2022**

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

# Dim Tresmasu ar y Rheilffordd






Yn ddiweddar bu myfyrwyr Ysgol Aberconwy yn gweithio gydag Andy Birch (artist graffiti Dime One) ar brosiect i ddylunio murlun sy'n tynnu sylw at ddiogelwch y rheilffordd a pheryglon tresmasu ar y rheilffordd.

Nod y prosiect, mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac a ariennir gan Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol Dyffryn Conwy a Gogledd Orllewin Cymru, yw ceisio lleihau tresmasu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn gorsafoedd rheilffordd. Bu Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig Cymru yn ymgysylltu â myfyrwyr yr ysgol, ac ymwelodd SCCH Suzanne Hall â'n hysgol i egluro'r prosiect ac i drafod peryglon tresmasu ar y rheilffordd i'n myfyrwyr.

Ar ôl cael eu dangos sut i greu llythrennau a dyluniadau graffiti gan Andy, cydweithiodd ein myfyrwyr i greu dyluniad ar gyfer murlun a fyddai'n cael ei arddangos mewn gorsaf drenau leol. Cafodd y ddelwedd fywiog, drawiadol ei pheintio yn y lloches yng Ngorsaf Rheilffordd Conwy gan Andy Birch a'r myfyrwyr, gyda Mrs Bethan Russell, athrawes Celf a Dylunio a SCCH Suzanne Hall hefyd yn cael tro gyda'r paent chwistrell! Mwynhaodd y myfyrwyr y profiad yn fawr ac maen nhw'n falch iawn o'u gwaith. Rydyn ni'n meddwl bod y dyluniad gorffenedig yn edrych yn anhygoel!

Dywedodd Ian Gerrard, Pennaeth, "Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran a diolch am eich holl waith caled. Roeddem fel ysgol yn falch iawn o gael ein gwahodd i gymryd rhan yn y fenter bwysig hon a allai helpu i achub bywydau."

Dywedodd Andy Baker, Rheolwr Gorsaf Trafnidiaeth Cymru (Gogledd Orllewin Cymru), "Mae'n bwysig ymgysylltu â phobl ifanc mewn ffordd y maen nhw'n ei deall, roedd y prosiect hwn yn ffordd wych o ymgysylltu â myfyrwyr Ysgol Aberconwy a dod dros bwysigrwydd diogelwch o amgylch y rheilffyrdd. Mae'n ddarn gwych o Gelf. Gwnaeth y myfyrwyr o Ysgol Aberconwy gymaint o argraff arnaf oherwydd eu hymwneud a'r ffordd yr oeddent wedi meddwl am y pwnc diogelwch, ac roeddent yn gwrtais a dymunol, yn glod i'w rhieni a'r ysgol."




## Gadewch i ni Gymryd Ieithoedd



Yn ddiweddar, treuliodd pedwar ar ddeg o fyfyrwyr blwyddyn 9 ddiwrnod yn mynychu ffair 'Dewch i Gymryd Ieithoedd' ym Mhrifysgol Bangor. Y nod oedd eu hannog i agor eu llygaid i fyd cyfleoedd a manteision dysgu ieithoedd ychwanegol.

Roedd y ffair undydd yn cynnig amrywiaeth o weithdai i fyfyrwyr, gydag amrywiaeth o sesiynau blasu iaith, gan cynnwys Ieithoedd Modern yn y Byd Gwaith gan David Binns, Caligraffeg Tsieineaidd gan Sefydliad Confucius, Iaith Galiseg gan y Ganolfan Astudiaethau Galisaidd yng Nghymru a thaith o amgylch Prifysgol Bangor dan ofal Llysgenhadon Ieithoedd Myfyrwyr Routes Cymru.

Meddai'r athrawes Ieithoedd Rhyngwladol, Nia Williams, a aeth gyda'r myfyrwyr, "Roedd y myfyrwyr i gyd o'r farn bod y digwyddiad yn ddiddorol iawn a chawsant wybodaeth ddefnyddiol iawn am astudio ieithoedd yn y brifysgol a gyrfaoedd posibl. Yn ogystal, daethant oddi yno gyda mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd byd-eang."

## Taith Marchnad Nadolig



Aeth Adran Ieithoedd Rhyngwladol Ysgol Aberconwy â dros 40 o fyfyrwyr i Farchnad Nadolig Frankfurt Birmingham, lle cawsant flas ar y siocled poeth, y bratwurst a'r pretzels. Llwyddodd rhai myfyrwyr i wneud ychydig o sglefrio ar rew a siopa Nadolig hefyd!



# Dyrannu Pelenni Tylluanod





I ddathlu gorffen eu prosiect Gwyddoniaeth cyntaf, cafodd un dosbarth o fyfyrwyr blwyddyn 7 gyfle unigryw yn ddiweddar i ddyrannu pelenni tylluanod yr oedd rhiant wedi dod o hyd iddynt ac wedi'u cynnig yn garedig i'r ysgol.

Roedd y sesiwn ddyrannu ymarferol yn cyd-fynd yn dda â'r prosiect 'bwyd' yr oedd y dosbarth yn ei orffen yr wythnos honno a rhoddodd gyfle iddynt roi'r wybodaeth a ddysgwyd ganddynt am gadwyni bwyd ac ecosystemau ar waith.

Nid oedd ein myfyrwyr yn ofnus o gwbl ac fe wnaethant fwynhau'r cyfle i ddod yn Wyddonwyr carthion am yr awr! Roedd hi'n hynod ddiddorol ac yn heriol iddyn nhw geisio nodi beth roedd y dylluan wedi'i fwyta o'r darnau y daethant o hyd iddynt. Dywedodd Benjamin Shaw, athro Gwyddoniaeth, "Roedd yn wych gweld y myfyrwyr yn mynd i'r afael â'r her o adnabod diet y dylluan o'i phelenni. Roedd yn gyfle iddynt ymarfer eu sgiliau ymarferol ac roeddent yn gallu dod o hyd i gryn dipyn yn eu pelenni: chwilod, esgyrn, ffwr a hyd yn oed pig! Rwy'n gwybod nawr bod gen i wyddonwyr carthion rhagorol yn fy nosbarth! Rwy'n hynod ddiolchgar i'r rhiant a wirfoddolodd y pelenni tylluanod i'r dosbarth eu defnyddio – roedd yn darparu profiad dysgu dilys gwych i'r myfyrwyr ei fwynhau."




## Achub Bywydau ar y Môr




Llongyfarchiadau i Martha ym Mlwyddyn 12, recriwt diweddaraf RNLI Conwy.

Dechreuodd ei hyfforddiant ar 9 Tachwedd fel aelod prawf. Mae'r Chweched Dosbarth yn edrych ymlaen at glywed am ei hanturiaethau!

## Legally Blonde



Wythnos ddiwethaf, bu cast a chriw o 60 o fyfyrwyr yn perfformio'r sioe gerdd Legally Blonde Jr yn Theatr Colwyn. Roedd y cynhyrchiad yn llwyddiant ysgubol ym marn y cynulleidfaoedd, a gododd ar eu traed i gymeradwyo'r ddau berfformiad. Arweiniwyd y cast anhygoel o dalentog gan Chloe Cartledge, a gymerodd ran Elle, a dyfarnwyd gwobr Perfformiwr y Flwyddyn iddi fel cydnabyddiaeth o'i dawn eithriadol ar y llwyfan ac oddi arno.



Bydd sioe gerdd 2023 yn cael ei chyhoeddi yn fuan! Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

YSGOL ABERCONWY

**Rhagfyr 2022**

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

## Eitem Newyddion ITV Cymru




Ymwelodd ITV Cymru â dosbarth Astudiaethau Ffilm Blwyddyn 12 Amy Grimward yn ddiweddar i adrodd ar brosiect y maen nhw wedi'i gwblhau ar wrthhiliaeth ac a ymddangosodd yng Nghymru yn Chwech ar 8 Rhagfyr 2022.

Canolbwyntiodd y myfyrwyr ar fywyd Enrico Stennett, goroeswr Windrush a oedd yn byw yn lleol. Bu'r dosbarth hefyd yn gweithio gyda Lal Davies, yr enillodd ei rhaglen ddogfen am Enrico y wobr am y Ffilm Fer Anghyfyngedig Orau yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Gogs yn ddiweddar.

Peidiwch â phoeni os gwnaethoch ei golli oherwydd gallwch chi wylio'r eitem yma: https://www.itv.com/news/wales/2022-07-13/catch-up-with-wales-at-six

## Gyrfa yn y gyfraith?




Heddiw cafodd myfyrwyr o flwyddyn 10 i 13 fudd o fynychu cyflwyniad gyrfaoedd am y gyfraith gan Ms Alys Bratch, cyfreithiwr dan hyfforddiant yn Lanyon Bowdler. Ym marn y myfyrwyr roedd y sgwrs a'r cyflwyniad yn ddiddorol ac yn ysbrydoledig, ac yn rhoi gwell ddealltwriaeth iddynt o'r llwybrau gyrfa a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y maes hwn.

# Rasio Llongau Tal

Llongyfarchiadau i Jessica, un o'n myfyrwyr Blwyddyn 11, ar gael ei dewis i gymryd rhan yn Her y Prif Gwnstabl a oedd yn cynnwys hwylio llong dal 72 troedfedd o hyd mewn ras o Portsmouth i Ddoc Albert yn Lerpwl mewn dim ond un wythnos.

Cafodd Jessica, sy'n aelod o Gadetiaid Heddlu Gogledd Cymru, ei dewis ar gyfer yr her hon oherwydd ei gwaith caled, ei diwydrwydd a'i hymroddiad. Ymunodd â 9 cadet arall o'i Heddlu i ffurfio criw o 10 a oedd yn cynrychioli Gogledd Cymru ac a fyddai'n cystadlu yn erbyn timau o Lannau Merswy, Manceinion Fwyaf a Swydd Gaer.

Ar ôl cyrraedd Portsmouth, roedd yn rhaid iddynt ddysgu sut i drin y llong, codi a gostwng yr hwyliau ac yna eu newid i weddu i'r amodau gwahanol, ei llywio ar bennawd cwmpawd a rhoi gorchmynion i eraill. Yn ogystal â hyn i gyd roedd yn rhaid iddynt gymryd eu tro i goginio, glanhau, golchi llestri, rhoi pethau i ffwrdd a gofalu am holl waith cynnal a chadw cychod fel y byddai'r llong yn berffaith ac yn barod ar gyfer y diwrnod canlynol o hwylio. Roedd yn rhaid iddynt hefyd ymaddasu i gysgu mewn mannau cyfyng iawn, mewn gwelyau a oedd yn gyfuniad o wely bync a hamog, a dysgu sut i fyw mewn gofod bach gyda'i gilydd, gyda dim ond un toiled, ychydig iawn o drydan a dim Wi-Fi!

Yn anffodus roedd y tywydd yn eu herbyn ac ni lwyddwyd i fynd allan o'r Sianel, gyda rhagolygon ymchwyddiadau o 5 i 6 metr ym Môr Iwerddon, i gwblhau'r daith i Lerpwl. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn eu hatal rhag ymarfer eu sgiliau hwylio yn y Sianel ac er ei bod yn arw iawn yno, gyda llawer ohonynt yn dioddef o salwch môr, hyd yn oed ar ôl cymryd meddyginiaeth, fe wnaethant lwyddo i rasio mewn timau a hefyd cwblhau cymhwyster hwylio'r Gymdeithas Hwylio Brenhinol (RYA).

Dychwelodd Jessica ar ôl gwneud ei gorau glas. Allan o 4 tîm, daeth Gogledd Cymru yn ail agos iawn i Swydd Gaer.







## Bwyd, Hwyl a Sbri Nadoligaidd

Gofynnwyd i grŵp Blwyddyn 11 TGAU Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant fynychu cyfarfod Nadolig i oedolion hŷn yn Eglwys Fethodistaidd Hen Golwyn ar ddydd Gwener 9 Rhagfyr 2022. Trefnwyd y digwyddiad hwn gan Dîm Llesiant Conwy.

Gwirfoddolodd y merched am y prynhawn gan osod byrddau a chadeiriau, dosbarthu chwileiriau, rhedeg ac ymuno yn y sesiwn Bingo. Yn bwysicaf oll, eisteddodd y grŵp a sgwrsio â'r oedolion hŷn a fynychodd y digwyddiad. Dywedodd yr athrawes Myfanwy Wilson, "Roedd yn wych gweld digwyddiad mor llwyddiannus rhwng cenedlaethau, ac roeddwn i'n falch iawn o ymddygiad y merched drwy gydol y digwyddiad."



## Siaradwyr i Ysgolion



Yn ddiweddar, cafodd ein myfyrwyr Blwyddyn 7 y pleser o wrando ar sgwrs gan y Gwir Anrhydeddus David Hanson, Cyn Weinidog Gwladol dros Drosedd a Phlismona, Ymddiriedolaeth Allgymorth Seneddol. Yn dilyn y sgwrs, gwahoddwyd y myfyrwyr i ofyn cwestiynau iddo am ei fywyd a'i brofiadau.

Trefnwyd y sgwrs drwy'r Elusen Siaradwyr i Ysgolion ac roedd yn rhan o brosiect Cwricwlwm Newydd i Gymru o'r enw 'Pwy Ydym Ni?' y mae'r myfyrwyr yn ei astudio fel rhan o'r Celfyddydau Mynegiannol ar hyn o bryd

## Gwyl Coed Nadolig



Cafodd goeden Nadolig Ysgol Aberconwy ei harddangos yn eglwys y Santes Fair fel rhan o Ŵyl Coed Nadolig Hosbis Dewi Sant Conwy. Ein thema oedd 'Parch a Charedigrwydd'. Bu myfyrwyr o bob grŵp blwyddyn wrthi'n creu addurniadau Nadolig gyda dyfyniadau ysbrydoledig am fod yn garedig a pharchu ei gilydd.




## Cyflwyniad i Chwarae

Ymwelodd dau aelod o Dîm Datblygu Chwarae Conwy yn ddiweddar â dosbarth TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant Bl 10. Cwblhaodd y dosbarth gwrs Cyflwyniad i Chwarae a byddant yn derbyn tystysgrif am hyn yn y Flwyddyn Newydd.



YSGOL ABERCONWY

Rhagfyr 2022

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

## Dathliad Nadolig



Ymunodd staff, myfyrwyr a’u teuluoedd â’r gymuned ehangach i ddathlu’r Nadolig yn Eglwys y Santes Fair yng Nghonwy ddydd Mawrth 20 Rhagfyr. Roedd y noson yn llawn o gerddoriaeth Nadoligaidd, gyda pherfformiadau rhagorol gan ein corau ysgol, cerddorion a hyd yn oed criw dawnsio. Rhannwyd darlleniadau a gweddïau i fyfyrio ar wir ystyr y Nadolig a mwynhaodd pawb ganu carolau Nadolig traddodiadol gyda’i gilydd.

Diolch enfawr i bawb a gymerodd ran ac a helpodd i wneud y noson yn un mor arbennig. Diolch hefyd i bawb a fynychodd, roedd yn wirioneddol wych ac yn galonogol gweld cymaint o bobl yn dymuno dathlu'r Nadolig gyda ni.









YSGOL ABERCONWY

Rhagfyr 2022

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

## Cinio Nadolig

Roedd dydd Mercher 14 Rhagfyr yn ddiwrnod o ddathlu! Roedd myfyrwyr a staff yn cael gwisgo siwmperi Nadolig yn lle siwmper ysgol, os oeddent yn dymuno, a mwynhau cinio Nadolig wedi'i baratoi a'i weini gan ein staff Sodexo Nadoligaidd.







## Dyddiadau ar gyfer eich Dyddiadur

**Diwrnod olaf y tymor - Dydd Iau 22 Rhagfyr 2022**
**Diwrnod Hyfforddi Staff - Dydd Gwener 23 Rhagfyr 2022**
**Diwrnod Hyfforddi Staff - Dydd Llun 9 Ionawr 2023**
**Myfyrwyr yn dychwelyd i'r ysgol - Dydd Mawrth 10 Ionawr 2023**
**Cyfarfod Rhieni Blwyddyn 11 - Dydd Mawrth 17 Ionawr 2023**
**Cyfarfod Opsiynau Chweched Dosbarth - Dydd Mawrth 31 Ionawr 2023**
**Cyfarfod Opsiynau Blwyddyn 9 - Dydd Mawrth 14 Chwefror 2023**
**Diwrnod olaf cyn hanner tymor - Dydd Gwener 17 Chwefror 2023**
**Myfyrwyr yn dychwelyd i'r ysgol - Dydd Mawrth 27 Chwefror 2023**
**Cyfarfod Rhieni Blwyddyn 12 & 13 - Dydd Mawrth 7 Mawrth 2023**
**Cyfarfod Rhieni Blwyddyn 10 - Dydd Mawrth 28 Mawrth 2023**
**Diwrnod olaf y tymor - Dydd Gwener 31 Mawrth 2023**

**I gael y wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd tymor a diwrnodau hyfforddi staff, edrychwch ar y calendr ar ein gwefan sy'n cwmpasu'r flwyddyn academaidd.**